




Ministry
of Justice

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: **Contractau Gwaith Dyletswydd Troseddol**

Mae'r ymateb hwn yn cael ei gyhoeddi ar 27 Tachwedd, 2014





Ministry
of Justice

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Contractau Gwaith Dyletswydd Troseddol

Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder:
<https://consult.justice.gov.uk/>**

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	3
Rhagair y Gweinidog	4
Crynodeb Gweithredol	6
1. Cyflwyniad	8
2. Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad/ safbwynt y Llywodraeth	12
3. Y camau nesaf	30
Egwyddorion ymgynghori	33

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori, 'Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Contractau Gwaith Dyletswydd Troseddol' a gyhoeddwyd ar 24 Medi 2014. Mae'n gwahodd sylwadau ar yr adroddiadau a gynhyrchwyd gan Otterburn Legal Consulting a KPMG LLP.

Bydd yn ymdrin â'r canlynol:

- y cefndir i'r adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu ag Annette Cowell yn y cyfeiriad isod:

**Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3555**

E-bost: LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth: <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau gwahanol oddi wrth LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk.

Bydd papur ymateb Cymraeg ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Rhagair y Gweinidog



Mae cymorth cyfreithiol troseddol yn rhan hanfodol o'n system gyfiawnder. Rhaid i ni sicrhau ei fod ar gael i'r unigolion sydd ei angen, ei fod yn gynaliadwy i'r cyfreithwyr sy'n ei ddarparu, ac yn fforddiadwy i'r trethdalwyr sy'n talu amdano yn y pen draw. Rydym yn cymryd penderfyniadau anodd mewn llawer o feysydd sy'n ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus i gwtogi ar wariant y llywodraeth, er mwyn hybu twf economaidd. Ni all cymorth cyfreithiol gael ei eithrio, a hyd yn oed ar ôl y newidiadau arfaethedig - sy'n unol â'r gostyngiadau mewn gwariant ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder - byddwn yn parhau i fod ag un o'r systemau cymorth cyfreithiol mwyaf hael yn y byd - sy'n costio tua £1.5 biliwn y flwyddyn.

I'r cwmnïau cyfreithiol sy'n darparu cymorth cyfreithiol troseddol, rwy'n deall yn iawn nad yw'r gostyngiadau hyn mewn ffioedd a threfn gontractio newydd yn faterion i'w croesawu. Rwy'n gwybod y bydd ar y diwygiadau

angen newid sylweddol yn y farchnad, os yw cwmnïau yn mynd i ad-drefnu eu hunain er mwyn bod yn llwyddiannus ar lefelau ffioedd is. Gyda hyn mewn golwg rwy'n credu bod dull y Contract Gwaith Dyletswydd mewn gwirionedd yn rhoi sicrwydd o fwy o waith nag y mae arnynt ei angen i gwmnïau cyfreithiol er mwyn bod â hyder yn y dyfodol ac i gychwyn ar y newidiadau sefydliadol sydd eu hangen i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. Mae hefyd yn bwysig wrth gyflawni fy nyletswydd i warchod mynediad at gyfiawnder, drwy warantu rhwydwaith o gwmnïau cyfreithiol cynaliadwy ledled y wlad i ddarparu gwasanaeth gwaith dyletswydd ym mhob gorsaf heddlu.

Mae'r ymarferiad ymgynghori mwyaf diweddar wedi fy ngalluogi i ystyried o'r newydd y nifer o gontractau gwaith dyletswydd yr ydym yn sicrhau sydd ar gael. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth yn ofalus, bydd bellach 527 o gontractau, cynnydd bychan ar y nifer a gynigiwyd yn wreiddiol. Rwy'n credu ei bod yn bwysig nodi er y bydd nifer y contractau yn cael ei gyfyngu i 527, rwy'n awyddus i sicrhau bod lle gwirioneddol ar gyfer marchnad amrywiol, gyda nifer mwy o gwmnïau yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaethau a mentrau ar y cyd, yn elwa ar arbedion maint, ac yn cyflwyno gwasanaeth o safon yn eu cymunedau lleol. O ystyried ein bod yn disgwyl i gyfanswm y gwaith aros yn gyson, nid wyf yn rhagweld newid sylweddol i'r nifer o ymglyfreithwyr sy'n ymarfer yn y maes hwn, hyd yn oed os yw strwythur y farchnad yn edrych yn wahanol i'r hyn y mae heddiw.

Er mwyn rhoi mwy o gymorth i gwmnïau mewn ardaloedd gwledig, rydym wedi penderfynu cyflwyno taliadau ar gyfer amseroedd teithio mwy na 90 munud. Byddwn hefyd yn llacio'r gofynion swyddfa yn yr ardaloedd caffael rhanedig a Llundain i roi mwy o hyblygrwydd. Mae hyn yn datblygu ar y mesurau cymorth a gyflwynwyd yn gynharach, megis cyflwyno taliadau interim ar gyfer cyfreithwyr sy'n rhan o achosion Llys y Goron hir a sefydlu rhwydwaith partneriaeth busnes i helpu ymarferwyr gyda chynghor trefniadol ac ariannol, os bydd ei angen arnynt. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Banc Busnes Prydain i ddatblygu canllawiau a chynghor yn benodol ar gyfer y farchnad cymorth cyfreithiol.

Fel y dywedais, rwy'n cydnabod bod heriau o'n blaenau wrth i'r farchnad aildrefnu ei hun i addasu i ostwng lefelau ffioedd a chontractau newydd. Ond credaf fod y newidiadau hynny yn angenrheidiol i sicrhau cynaliadwyedd y farchnad, mewn cyfnod economaidd anodd. Rwy'n credu hefyd mai'r cynllun darparwr gwaith dyletswydd newydd yw'r ffordd fwyaf cyfrifol o gefnogi'r farchnad i wneud y trawsnewid hwnnw. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn gwneud popeth o fewn ein gallu i weithio gyda chwmnïau cyfreithiol yn ystod y broses dendro i gyflawni'r contractau newydd.



Chris Grayling
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Crynodeb Gweithredol

- (i) Mae caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol (cystadleuaeth trosedd) yn rhan o becyn ehangach o ddiwygiadau yn y Rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol. Nod y polisi cystadleuaeth trosedd yw darparu gwasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol sy'n deg ac yn gynaliadwy. Bydd yn gwneud hynny trwy gynnig mwy o gyfleoedd i sefydliadau i raddio i fyny i gyflawni arbedion maint a darparu gwasanaeth mwy effeithlon sy'n sicrhau y gall pobl sy'n cael eu cyhuddo o drosedd dderbyn cyngor a chymorth ac, os oes angen, cynrychiolaeth. Mae'r model yn rhoi i sefydliadau yr hyder i fuddsoddi yn yr ailstrwythuro sy'n ofynnol gan wybod y byddant yn derbyn mwy o waith a gwaith mwy sicr. Mae'r dull contractio hwn hefyd yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen i'r Llywodraeth y bydd y rhai a gyhuddir o drosedd yn cael mynediad at gyfreithiwr trwy gynnal gwasanaeth cymorth cyfreithiol cynaliadwy. Mae'r bwriad hwn wedi bod yn gyson ers i ni ymgynghori am y tro cyntaf yn Ebrill 2013.
- (ii) Roedd ffocws yr ymgynghoriad hwn ar adroddiadau KPMG ac Otterburn, y rhagdybiaethau y dibynnwyd arnynt yn yr adroddiadau hynny a chymryd penderfyniad newydd ynghylch nifer y contractau Gwaith Darparwr Gwaith Dyletswydd (DPW) i'w cynnig. Serch hynny, roedd ymatebwyr yn defnyddio'r ymgynghoriad hwn hefyd i fynegi gwrthwynebiad cyffredinol i'r model contractio deul. Rydym yn cydnabod bod gan lawer o ymatebwyr farn gref ar y pwynt hwn. Ond mae ymatebwyr i raddau helaeth yn mynegi barn a ystyriwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol ac nid ydynt wedi darparu tystiolaeth newydd nad yw'r model contractio deul yn hyfyw.
- (iii) Rydym wedi ystyried barn yr ymatebwyr yn ofalus wrth gyrraedd y casgliadau a nodwyd yn yr ymateb hwn. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn anghytuno gyda thybiaethau KPMG. Mynegodd llawer o'r ymatebion farn am wahanol ragdybiaethau. Ond nid oedd y rhain bob amser yn rhoi darlun cyson wrth gymryd i ystyriaeth y cydadwaith rhwng y rhagdybiaethau hynny.
- (iv) Er mwyn helpu i lunio penderfyniad terfynol am nifer y contractau fe wnaethom gyflogi KPMG i:
- Ddarllen y deunydd ymateb i'r ymgynghoriad (crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd gan ymatebwyr, ymatebion gan y prif gyrff cynrychioliadol a dadansoddiad cryno o'r ymatebion a dderbyniwyd drwy'r both LCCSA);
 - Nodi tystiolaeth a geir yn y dogfennau sy'n ymwneud â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd fel sail i'r model; a
 - Chymharu'r dystiolaeth honno i'r hyn a welodd neu a glywodd KPMG yn flaenorol ac ystyried y graddau y mae hyn yn newid y farn am y rhagdybiaethau.
- (v) Gwnaeth KPMG asesiad i weld a yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cynnig unrhyw dystiolaeth newydd a fyddai'n gwneud iddynt ddiwygio eu hadroddiad gwreiddiol ac maent wedi dod i'r casgliad, ac eithrio'r rhagdybiaeth ynghylch maint y gwaith, nad yw ymatebwyr wedi darparu unrhyw dystiolaeth newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt newid eu hadroddiad. Argymhellodd KPMG y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r rhagdybiaeth ynghylch maint y gwaith yn y dyfodol, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gwneud hyn. O ganlyniad i'r gwaith pellach hwn,

rydym wedi penderfynu tendro am gyfanswm o 527 o gontractau. Ar ôl ystyried y pryderon a godwyd ynghylch cymhwysu'r model contractau deuol i ardaloedd gwledig, i gydnabod yr angen i deithio ar draws ardaloedd daearyddol, rydym hefyd wedi penderfynu talu am amser teithio dros 1.5 awr. Ar ben hynny, byddwn yn caniatáu i'r rhai sydd â swyddfa yn un o'r ardaloedd caffael 'rhanedig' wneud cais yn yr ardal arall os ydynt yn dymuno, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y mae sefydliadau yn darparu gwasanaeth.

- (vi) Rydym yn lansio ymarferiad tendro heddiw ar gyfer gwaith y darparwr ar ddyletswydd. Ym mis Mehefin 2015, bydd cynigwyr yn cael gwybod am ganlyniad y tendr a bydd gwasanaethau yn dechrau o dan y contractau newydd yn Hydref 2015. Rydym yn bwriadu gweithredu'r ail ostyngiad ffioedd, o hyd at 8.75% ym mis Gorffennaf 2015, yn amodol ar yr ystyriaethau pellach yr ydym eisoes wedi dweud y byddwn yn ymgymryd â hwy.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae cymorth cyfreithiol troseddol yn cael ei ddarparu fel y gallai'r rhai a gyhuddir o drosedd dderbyn cyngor a chymorth a chynrychiolaeth, gerbron llys, pan fydd ei angen arnynt. Mae sicrhau bod gan y rhai a gyhuddir o drosedd yr hawl i amddiffyniad yn rhan hanfodol o'n system gyfiawnder.
- 1.2 Mae caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol (cystadleuaeth trosedd) yn rhan o becyn ehangach o ddiwygiadau yn y Rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol. Mae amcan y polisi cystadleuaeth trosedd yn glir ac wedi bod yn gyson ers yr ymgynghorwyd â ni am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2013, sef darparu gwasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol teg a chynaliadwy trwy gynnig mwy o gyfleoedd i sefydliadau ehangu i gyflawni arbedion maint a darparu gwasanaeth mwy effeithlon. Mae'r model yn rhoi'r hyder i sefydliadau fuddsoddi yn yr ailstrwythuro sy'n ofynnol gan wybod y byddent yn derbyn mwy o enillion ac enillion mwy sicr.

Yr achos dros ddiwygio

- 1.3 Nid yw'r syniad bod angen i'r farchnad newid yn un newydd. Yn ôl yn 2006, cynhaliodd yr Arglwydd Carter o Coles Adolygiad o Gaffael Cymorth Cyfreithiol. Argymhellodd symud oddi wrth gyfraddau a osodir yn weinyddol am waith cymorth cyfreithiol o blaid tendro am werth gorau. Roedd yn rhagweld y byddai darparwyr cymorth cyfreithiol yn cael eu dewis yn gystadleuol yn seiliedig ar eu gallu i gyflawni swm ac ansawdd y gwaith yn ddigonol am y pris mwyaf manteisiol yn economaidd. Gwnaeth achos cryf dros symud at ymagwedd sy'n seiliedig ar y farchnad tuag at gaffael cymorth cyfreithiol. Tynnodd yr Arglwydd Carter sylw hefyd at yr angen am ailstrwythuro'r farchnad, ac am gynyddu maint cyfartalog y darparwyr drwy dwf, uno a rhesymoli.
- 1.4 Mae ymarferwyr a chyrrff cynrychioliadol dros flynyddoedd lawer, wedi dadlau nad yw'r farchnad yn ei ffurf bresennol yn gynaliadwy gan dynnu sylw at y ffaith fod gormod o ddarparwyr yn mynd ar ôl rhy ychydig o waith. Mae darnio'r farchnad yn fwy amlwg mewn rhai ardaloedd o gymharu ag eraill ac rydym yn cydnabod bod rhai darparwyr wedi bod yn rhagweithiol wrth gymryd camau i ymdrin â'u pryderon am eu lle yn y farchnad yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r farchnad yn gofyn am gefnogaeth a chanllawiau i ystyried ailstrwythuro o'u mewn.
- 1.5 Pan ddechreuodd y broses o ddiwygio roedd gennym un o'r systemau cymorth cyfreithiol mwyaf drud yn y byd, oedd yn costio tua £2 biliwn y flwyddyn. O ystyried yr argyfwng ariannol a etifeddwyd gan y Llywodraeth hon, nid oedd gennym ddewis ond gwneud arbedion sylweddol. Hyd yn oed ar ôl gweithredu'r holl ddiwygiadau cymorth cyfreithiol, rydym yn dal i fod ag un o'r systemau cymorth cyfreithiol mwyaf hael - gan wario oddeutu £1.5 biliwn y flwyddyn. Nid oes gan y Llywodraeth unrhyw ddewis ond lleihau gwariant ac ni all y cynllun cymorth cyfreithiol fod yn eithriad. Erbyn 2015/16, bydd cyllideb yr adran yn cael ei lleihau o ryw draean mewn termau real ac, fel un o'n meysydd gwariant mwyaf, bydd ein diwygiadau i'r cynllun cymorth cyfreithiol yn gweld y gyllideb arbennig honno yn gostwng o oddeutu'r un swm.

- 1.6 Rydym eisoes wedi cymryd camau i leihau gwariant cymorth cyfreithiol drwy gyfres o ddiwygiadau a weithredwyd rhwng Rhagfyr 2013 a mis Mawrth 2014, yn fwyaf nodedig y gostyngiad o 8.75% mewn ffioedd a gyflwynwyd ar 20 Mawrth 2014. Ym mis Chwefror, fe wnaethom ein penderfyniad yn glir (yn amodol ar ystyriaeth bellach) i wneud gostyngiad pellach o ddim mwy na 8.75% yng nghanol 2015.
- 1.7 O ystyried y pwysau ar gyllid cyhoeddus a'r gofyniad sy'n dilyn i leihau gwariant o fewn cymorth cyfreithiol troseddol, mae'r angen am farchnad effeithlon ac wedi'i chydgrynhoi yn dod hyd yn oed yn fwy pwysig. Rydym yn dal i gredu heb unrhyw ymyrraeth gan y Llywodraeth fod y farchnad yn debygol o gydgrynhoi mewn dull afreolus a gallai arwain at fylchau yn y ddarpariaeth. Ni fyddai hyn er budd cleientiaid, darparwyr na'r trethdalwr.
- 1.8 Felly, os bydd y rhan fwyaf o'r rhai sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol yn cydnabod ac yn cytuno nad y ffordd bresennol o gomisiynu'r gwasanaethau hynny a maint a strwythur y farchnad yw'r ffordd orau o gyrraedd y nod hwnnw, mae'n fater o benderfynu sut ac o faint y mae angen i'r farchnad gydgrynhoi.

Chwefror 2014 - Ymateb y Llywodraeth

- 1.9 Fe wnaethom gyhoeddi penderfyniad y Llywodraeth i fwrw ymlaen â chaffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol drwy broses gystadleuol ym mis Chwefror. Cyflwynwyd y model caffael terfynol yn Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf - Ymateb y Llywodraeth.
- 1.10 Mae'r model yn cynnig contract Gwaith y Cleientiaid eu Hunain i unrhyw ymgeisydd sy'n gallu dangos ei fod yn bodloni'r safonau ansawdd gofynnol gan roi cyfle i gleientiaid gyfarwyddo eu darparwr eu hunain (gan dybio eu bod yn dal contract). Ond ar gyfer y rhai nad ydynt yn enwi eu cyfreithiwr eu hunain, rhaid inni sicrhau, ar yr amod eu bod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, eu bod yn cael mynediad at gyfreithiwr. Nod y broses gontractio Gwaith Darparwr Gwaith Dyletswydd (DPW) yw sicrhau bod darparwyr ym mhob ardal caffael gyda digon o waith i fod yn hyfyw yn ariannol o ystyried y ffioedd is. Ond wrth benderfynu ar nifer y contractau DPW, mae'n rhaid i ni bwysu a mesur cyfres o ffactorau i gynnig meintiau contract sy'n gynnig ymarferol yn ariannol y bydd sefydliadau yn gwneud cais yn eu herbyn, gan barhau i gynorthwyo marchnad amrywiol gan gynnwys ystod o strwythurau busnes.
- 1.11 Gwnaed y penderfyniad cychwynnol i gynnig 525 o gontractau DPW ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ddau ymarferiad ymgynghori blaenorol (tua 19,000 o ymatebion i gyd) a'r ymchwil a gomisiynwyd gan KPMG, LLP ac Otterburn Legal Consulting. Cafodd y ddau adroddiad (KPMG ac Otterburn) eu cyhoeddi¹ ochr yn ochr ag Ymateb y Llywodraeth ym mis Chwefror, ond ni wnaethom geisio barn trwy ymgynghori ar gynnwys yr adroddiadau hynny, gan gynnwys y tybiaethau sy'n sail i'r adroddiadau hynny. Roedd yr ymchwil annibynnol yn ddarn pwysig o ddata a gwaith modelu i'n cynorthwyo wrth benderfynu ar yr ystod briodol o gontractau DPW i'w cynnig ym mhob ardal caffael. Ar ôl pwysu a mesur y dadansoddiad i gyd, yr ymchwil annibynnol, yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r risgiau allweddol, fe wnaethom benderfynu ym mis Chwefror bwrw ymlaen gyda gweithredu model o gaffael lle y

¹ https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/consult_view

byddai uchafswm y contractau DPW yn yr ystod a nodwyd yn adroddiad KPMG yn cael eu cynnig.

- 1.12 Fel y nodwyd ym mis Chwefror, rydym yn disgwyl y bydd y farchnad bresennol yn ailstrwythuro ei hun, o fewn y canllawiau a nodir yn y rheolau tendro a'r contract, i gyflwyno gwasanaethau. Rydym hefyd wedi llacio'r cyfyngiadau ar y mathau o strwythur busnes sy'n dderbyniol ar gyfer caffael er mwyn creu mwy o hyblygrwydd i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan yn y tendr. Bydd hyn yn rhoi'r cyfleoedd mwyaf posibl i'r farchnad darparwyr bresennol i barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol.

Ymgynghori ynghylch Contract Gwaith Dyletswydd Troseddol

- 1.13 Ym mis Mehefin 2014, cwblhaodd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), y corff sy'n gyfrifol am gomisiynu a gweinyddu gwasanaethau cymorth cyfreithiol, gam cyntaf y broses gaffael a hysbysodd dros 1,800 o ymgeiswyr eu bod yn llwyddiannus. Ond cafodd dechrau ail gam y broses, tendr y contract Gwaith Darparwr Gwaith Dyletswydd, ei oedi pan, ar 19 Medi 2014, y cyhoeddodd yr Uchel Lys ddyfarniad ar adolygiad barnwrol o ymgynghoriad Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf a ddygwyd gan Gymdeithas Cyfreithwyr y Gyfraith Droseddol a Chymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Troseddol Llundain. Roedd y dyfarniad yn ymwneud â'r broses ymgynghori, yn benodol y methiant i ymgynghori ar y ddau adroddiad (KPMG ac Otterburn) a ddefnyddiwyd fel sail i nifer y contractau DPW sydd ar gael, gan gynnwys y tybiaethau oedd yn sail i'r adroddiadau hynny. Yng ngoleuni'r dyfarniad, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad pellach yn benodol ar yr adroddiadau hynny a'r tybiaethau sy'n sail iddynt gyda'r bwriad o gymryd penderfyniad newydd ynghylch y nifer o gontractau DPW y dylid eu cynnig.
- 1.14 Roedd yr ymgynghoriad hwn - a lansiwyd ar 24 Medi ac a ddaeth i ben ar 15 Hydref - yn gofyn am farn a thystiolaeth yn ymwneud â'r dadansoddiad a wnaed gan Otterburn a KPMG, gan gynnwys, yn benodol, y canfyddiadau a'r casgliadau a luniwyd gan Otterburn a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd fel sail i'r model a osodwyd yn adroddiad KPMG.
- 1.15 Fe'i gwnaethom yn glir yn y papur ymgynghori nad oedd y model contractio deulol a'r penderfyniad i gyfyngu ar nifer y contractau DPW o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.
- 1.16 Rydym wedi adolygu ac ystyried o'r newydd yr Asesiad Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror ac rydym wedi dod i'r casgliad nad oes angen diwygio'r dogfennau hyn ar hyn o bryd. Yn benodol, nid ydym o'r farn bod y newid yn nifer y contractau DPW a amlinellir yn y papur hwn yn effeithio ar ba mor briodol yw'r dogfennau hynny. Rydym yn derbyn y bydd angen monitro canlyniadau'r ymarferiad caffael a bydd yr LAA yn monitro darparwyr trwy eu gweithdrefnau rheoli contractau ac archwilio yn rheolaidd.
- 1.17 Rydym wedi ymgynghori'n helaeth gydag ymarferwyr, cyrff cynrychioliadol, cymdeithasau arbenigol a phartion eraill â diddordeb ynghylch y drefn ar gyfer caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol pan fydd y contractau presennol yn dod i ben y flwyddyn nesaf. Yn dilyn dau ymgynghoriad cyhoeddus ar y model o gaffael a'r trydydd ymgynghoriad hwn ar elfen benodol o'r model (yr ydym wedi gwrandao trwyddo ar y sylwadau a dderbyniwyd ac wedi gwneud newidiadau

sylweddol lle bo hynny'n briodol), rydym yn hyderus y bydd y model caffael terfynol ar gyfer cymorth cyfreithiol yn parhau i warantu amddiffyniad i'r rhai na allant fforddio talu a sicrhau gwasanaeth cymorth cyfreithiol troseddol teg a chynaliadwy. Yr hyn sydd ar ôl yw penderfyniad terfynol ar nifer y contractau Gwaith Darparwyr Gwaith Dyletswydd i'w cynnig.

2. Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad/ safbwynt y Llywodraeth

- 2.1 Cawsom 3,942 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn bennaf gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol. Rhoddodd y mwyafrif (71%) sylwadau gan ddefnyddio templed ar-lein a gynhelir ar wefan Cymdeithas Llysoedd Troseddol Llundain (LCCSA) a ofynnodd nifer o gwestiynau amlddewis oedd yn gysylltiedig â'n chwe chwestiwn ymgynghori.
- 2.2 Mae'r dadansoddiad manwl isod yn cymryd pob un o'r cwestiynau yn eu tro, ac yn nodi'r ymatebion a dderbyniwyd.

Safbwynt cyffredinol

- 2.3 Roeddem yn glir yn y ddogfen ymgynghori, ar ôl ymgynghori'n helaeth ar ddull cyffredinol y model contract deuol ac ynghylch cyfyngu nifer y contractau DPW a chyhoeddi'r ffordd ymlaen ym mis Chwefror, nad oedd hyn yn fater ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Roedd ffocws yr ymgynghoriad hwn ar adroddiadau KPMG ac Otterburn, i fod yn sail i benderfyniad newydd am nifer y contractau DPW i'w cynnig.
- 2.4 Er hynny defnyddiodd ymatebwyr yr ymgynghoriad hwn i fynegi gwrthwynebiad cyffredinol i'r model contractio deuol (neu'r hyn y mae ymatebwyr yn cyfeirio ato fel y model dwy haen) yn ei gyfanrwydd, gan nodi bod dull o'r fath yn anghywir mewn egwyddor.
- 2.5 Awgrymodd ymgynghoreion bod y diffygion o ran y rhagdybiaethau yn eu barn nhw yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd ac ymarferoldeb y model contract deuol. Mae'n amlwg fod gan nifer o ymgynghoreion farn gref iawn am y pwynt hwn ac maent yn pryderu'n fawr am y model contract deuol.
- 2.6 Ond mynegodd yr ymgynghoreion farn a oedd i raddau helaeth wedi ei hystyried yn flaenorol. Nid yw ymgynghoreion wedi rhoi unrhyw dystiolaeth newydd am hyfywedd y model contract deuol. Gan gydnabod y pryderon a godwyd gan ymgynghoreion eto, rydym yn derbyn y bydd angen monitro canlyniadau'r ymarferiad caffael a bydd yr LAA yn monitro darparwyr yn rheolaidd trwy eu gweithdrefnau rheoli ac archwilio contractau i nodi unrhyw broblemau yn gynnar ac i weithredu'n gyflym i sicrhau bod cynrychiolaeth effeithiol yn cael ei chynnal.

Cwestiwn 1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau adroddiad Otterburn, gan gynnwys y sylwadau a nodir ar dudalennau 5 i 8 o'i Adroddiad? Rhwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

Sylwadau cyffredinol

- 2.7 Mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno ag adroddiad Otterburn, ac yn teimlo nad oedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a'r canfyddiadau a wneir gan Otterburn. Y prif bryderon a amlygwyd ganddynt oedd yr asesiad bod sefyllfa ariannol darparwyr yn fregus a fyddai'n gwneud buddsoddiad pellach yn anodd; byddai angen o leiaf naw mis i ddarparwyr gwblhau'r gwaith ehangu angenrheidiol; bod trefniadau partneriaeth cyflenwi yn golygu bod yna faterion rheoleiddiol, yswiriant, materion economaidd a goruchwyllo sy'n gweithredu fel rhwystrau; na fyddai'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn goroesi'r toriadau mewn ffioedd, ac ychydig nad oedd yn llwyddo i sicrhau contract DPW fyddai'n hyfyw hefyd.
- 2.8 Mae'n bwysig cofio amcan arolwg Otterburn. Prif bwrpas y gwaith oedd casglu data am sefyllfa ariannol bresennol y darparwyr i fwydo i mewn i'r modelu ariannol a wnaed gan KPMG. Roedd arolwg Otterburn yn gysylltiedig â'r farchnad bresennol, roedd KPMG yn defnyddio data'r arolwg o adroddiad Otterburn ac, ynghyd â data am hawliadau o'r LAA, adeiladodd fodel i helpu i lywio penderfyniad am nifer y contractau DPW i'w cynnig. Lluniodd Otterburn gasgliadau o'r wybodaeth ansoddol a gafwyd gan ymatebwyr yr arolwg a gwnaeth ei sylwadau ei hun am y farchnad. Cafodd y casgliadau a'r sylwadau hyn eu hystyried ochr yn ochr â phob ymateb arall i ymgynghoriad Y Camau Nesaf.
- 2.9 Unwaith eto mae'r Llywodraeth wedi cymryd casgliadau Otterburn a sylwadau'r ymatebwyr ar y casgliadau hynny i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad terfynol ar nifer y contractau DPW. Rydym yn asesu'r meysydd allweddol y canolbwyntiodd ymatebwyr arnynt wrth gynnig barn ar ei adroddiad.

Maint yr Elw

- 2.10 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno yn gyffredinol â dadansoddiad Otterburn oedd yn awgrymu mai dim ond y darparwyr mwyaf proffidiol ar hyn o bryd fydd yn parhau i fod yn broffidiol o dan y model newydd. Y farn oedd y byddai'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn annhebygol o allu parhau i fasnachu gyda 17.5% o ostyngiad yn y ffioedd, yn enwedig cyn cydgrynhoi. Dadleuai rhai mai dim ond cyfran fach iawn o ddarparwyr fydd yn hyfyw yn eu ffurf bresennol, a chyda niferoedd isel o achosion a maint yr elw yn dynn mai ychydig o ddarparwyr a allai oroesi 17.5% o ostyngiad mewn ffioedd. Teimlai rhai bod lleiafswm maint yr elw o 5% a awgrymwyd gan Otterburn yn rhy isel i fod yn hyfyw, yn enwedig o ystyried y risgiau sy'n gynhenid yn y contractau.
- 2.11 Mae canfyddiad Otterburn y byddai llawer o sefydliadau yn ei chael yn anodd goroesi gostyngiad o 17.5% yn y ffioedd yng nghyd-destun strwythur y farchnad sydd heb ei chydgrynhoi ar hyn o bryd. Bydd cydgrynhoi'r farchnad yn rhoi cyfle i sefydliadau gael mynediad at gyfran fwy o waith, gan eu galluogi i edrych ar arbedion maint a fydd yn ei dro yn helpu i liniaru'r gostyngiad yn y ffioedd a rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt wneud elw cynaliadwy. Mae yna nifer o ffyrdd y gallai sefydliadau gynyddu eu maint er mwyn ymgymryd â DPW, megis drwy uno, mentrau ar y cyd neu bartneriaethau cyflenwi. Mae ychydig dros 1,800 o sefydliadau wedi gwneud cais am gontract OCW ac wedi llwyddo i ennill un, sy'n awgrymu bod

nifer sylweddol iawn o sefydliadau yn ystyried bod gwaith (neu o leiaf OCW) ar y cyfraddau arfaethedig yn hyfyw a deniadol.

- 2.12 Nododd rhai mai'r darparwyr mwyaf proffidiol yw'r rhai sy'n cyflogi neu sy'n cael eu rhedeg gan nifer fach o gyfreithwyr, ond dywedwyd y byddai'r darparwyr hyn yn methu â gwasanaethu un o'r contractau; dadleuodd eraill mai'r darparwyr mwy o faint oedd y rhai mwyaf proffidiol.
- 2.13 Er ein bod yn nodi bod nifer o ddarparwyr llai lle mae maint yr elw'n uchel, rydym yn credu bod adroddiad Otterburn yn dangos tystiolaeth o arbedion maint yn y farchnad bresennol. O fewn yr adroddiad, mae Otterburn yn gwahanu'r darparwyr i ddau gategori: 50% o'r farchnad gyda chyfraddau uwch na'r canolrif o elw, a 50% o'r farchnad gyda chyfraddau is na'r canolrif o elw. Yna cyflwynir lefel ffioedd y ddau grŵp yn nhablau 5.9 a 5.10 o adroddiad Otterburn. Mae hyn yn dangos, yn gyffredinol, bod y darparwyr mwy proffidiol yn tueddu i fod â mwy o refeniw o ffioedd (canolrif o £510,000, chwarter uchaf o £813,000), tra bod y darparwyr llai proffidiol yn tueddu i fod â refeniw is o ffioedd (canolrif o £320,000, chwarter uchaf £486,000). Mae hyn yn awgrymu bod refeniw ffioedd uwch yn tueddu i olygu bod darparwyr yn fwy proffidiol ac yn awgrymu bod arbedion maint yn bodoli.
- 2.14 Mae data o adroddiad KPMG, a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Otterburn, yn cefnogi hyn ymhellach. Mae'r adroddiad yn nodi gwybodaeth am gyfanswm y ffioedd troseddol a chyfanswm yr elw net wedi'u dadansoddi yn ôl nifer y cyfreithwyr troseddol. Unwaith y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hagredu ar gyfer y cwmnïau amrywiol eu maint ar draws rhanbarthau, mae'n awgrymu bod cwmnïau mwy o faint yn fwy proffidiol. Proffidioldeb cymedrig gwaith a wnaed gan gwmnïau gyda rhwng 1 a 5 o gyfreithwyr troseddol oedd colled o 2.1%, ond proffidioldeb cymedrig gwaith a wnaed gan gwmnïau gyda 13 neu fwy o gyfreithwyr troseddol oedd 8.5%.

		Llundain	Trefol	Gwledig	Cyfanswm
Cyfanswm y ffioedd	1-5 cyfreithiwr	£3.0m	£14.4m	£9.6m	£27.0m
	6-12 cyfreithiwr	£3.8m	£29.0m	£4.8m	£37.6m
	13+ cyfreithiwr	£28.0m	£40.4m	£4.3m	£72.7m
Cyfanswm yr Elw Net	1-5 cyfreithiwr	£-0.2m	£-0.7m	£0.3m	£-0.6m
	6-12 cyfreithiwr	£-0.4m	£2.4m	£0.3m	£2.3m
	13+ cyfreithiwr	£2.9m	£3.6m	£-0.3m	£6.2m
Cyfanswm Cyfradd yr Elw	1-5 cyfreithiwr	-5.4%	-4.8%	3.0%	-2.1%
	6-12 cyfreithiwr	-9.9%	8.3%	6.2%	6.2%
	13+ cyfreithiwr	10.3%	8.9%	-6.0%	8.5%

- 2.15 Mewn perthynas â chanfyddiad Otterburn bod darparwyr angen 5% fel maint yr elw, yn ôl arolwg Otterburn ei hun mae bron i hanner y farchnad ar hyn o bryd yn gweithredu ar lai na 5%, wrth edrych ar broffidioldeb trosedd. Mae hyn yn awgrymu er y byddai darparwyr yn hoffi isafswm proffidioldeb o fwy na 5%, mewn gwirionedd nad yw hyn bob amser yn digwydd.

Cyllid

- 2.16 Dadleuai'r ymatebwyr y byddai'r cynnydd angenrheidiol o ran maint i gontractau gwasanaeth yn rhy fawr i lawer o sefydliadau ac y byddai'n ofynnol cael o leiaf naw mis i weithredu hyn.
- 2.17 Rydym yn credu ein bod wedi taro'r cydbwysedd iawn rhwng gofyn i sefydliadau dyfu a rhoi digon o waith iddynt barhau yn gynaliadwy. Yn ogystal, rydym wedi penderfynu talu am gostau teithio os yw darparwr wedi teithio am fwy na 1.5 awr, a ddylai helpu wrth orfod gwasanaethu contractau mwy o faint dros ddaearyddiaeth ehangach. O ran y cyfnod gweithredu, mae darparwyr wedi bod yn ymwybodol o'n bwriad i gydgrynhoi'r farchnad yng ngoleuni gostyngiadau mewn ffioedd ers ein hymgyngoriad cyntaf yn Ebrill 2013. Mae tystiolaeth fod darparwyr yn dechrau ar y broses o gydgrynhoi trwy uno. Cyn belled ag y bo darparwyr sy'n ennill contractau DPW yn gallu darparu'r gwasanaeth ar y dechrau, gallant barhau i dyfu eu busnes dros amser.
- 2.18 Cytunodd yr ymatebwyr gyda Otterburn hefyd fod gan ddarparwyr sefyllfa fregus o ran cyllid (cronfeydd arian wrth gefn oedd yn isel iawn a diffyg cyfleusterau bancio pellach) a fyddai'n gwneud buddsoddiad pellach yn anodd.
- 2.19 O ran y pryderon a fynegodd ymatebwyr am ddarparwyr sydd â'r gallu ariannol i fynd yn fwy mae rhywfaint o gymorth y gallai'r Llywodraeth ei roi fel cefnogaeth drosiannol fel y nodwyd gennym yn Chwefror. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith cefnogi partneru busnes, a weithredir gan yr LAA i gynnig gwybodaeth ac arweiniad i ymarferwyr sy'n chwilio am gymorth o ran ailstrwythuro eu busnes a sut i fynd ati i chwilio am gefnogaeth ariannol. Rydym yn credu bod hyn yn bwysig er mwyn darparu cymorth parhaus i fusnesau yn ystod dwy flynedd gyntaf strwythur y farchnad newydd.
- 2.20 Er na all yr LAA roi cyngor ariannol, bydd yn gallu helpu darparwyr i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol am gyllid. Rydym hefyd wedi agor trafodaethau am y farchnad cymorth cyfreithiol yn benodol gyda Ban Busnes Prydain (BBB), sy'n Gorff Hyd Braich sy'n adrodd i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Rydym wedi datblygu canllawiau yn benodol ar gyfer y farchnad cymorth cyfreithiol ar y cyd â'r BBB ynghylch pa gynhyrchion ariannol a gefnogir gan y Llywodraeth, megis y Gwarant Cyllid Menter, sydd ar gael i'r farchnad cymorth cyfreithiol, ac rydym wedi gofyn am wybodaeth benodol am faterion sy'n ymwneud â chyllid cyfalaf gweithio a buddsoddi yn y sector. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan LAA yn: <http://legalaidtraining.justice.gov.uk/course/category.php?id=131>. Mae'r model yn rhoi'r hyder i fuddsoddi i sefydliadau yn yr ailstrwythuro sy'n ofynnol gan wybod y byddent yn derbyn mwy o waith a gwaith mwy sicr.
- 2.21 Ar adeg adroddiad Otterburn nid oedd darpariaethau'r taliad interim newydd ar gyfer ymglyfreithwyr sy'n gweithio ar achosion Llys y Goron hirfaith wedi cael eu cyhoeddi. Bwriad y darpariaethau hyn, a gyflwynwyd ym mis Hydref, yw gwrthsefyll problemau sy'n ymwneud â llif arian. Mae hyn yn golygu y bydd ymglyfreithwyr yn cael eu talu

ar gyfnodau mwy rheolaidd ar yr achosion hirach a mwy drud. Bydd y darpariaethau hynny o gymorth sylweddol i leihau effaith y gostyngiadau mewn ffioedd, cyn i'r contractau DPW cyfunol gael eu cynnig.

- 2.22 Mae ymatebwyr wedi awgrymu hefyd y dylai consortia ymdrin â materion rheoleiddiol, yswiriant, economaidd a goruchwyllo sy'n gweithredu fel rhwystrau. Nid ydym yn bychanu'r heriau y mae darparwyr yn eu hwynebu wrth geisio gwneud y newidiadau angenrheidiol, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio sefydlu trefniadau partneriaeth i gyflenwi neu fentrau ar y cyd. Mae sail unrhyw bartneriaeth cyflenwi yn fater i'r rhai sy'n cymryd rhan. Er bod yna faterion i'w hystyried nid ydym yn credu bod y rheiny yn anorchfygol.

Contractau a Chydgrynhoi

- 2.23 Dadleuodd yr ymatebwyr fod Otterburn yn iawn i ddod i'r casgliad y dylai contractau fod yn hyblyg o ran maint gan nad oedd dull 'un maint i bawb' yn briodol. Rydym wedi edrych ar nifer y contractau sy'n ofynnol ym mhob ardal caffael, felly bydd maint contractau yn amrywio yn ôl ardal caffael, gan adlewyrchu'r strwythurau marchnad gwahanol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rydym wedi rhannu rhai o'r ardaloedd caffael a gynigiwyd gennym yn wreiddiol i adlewyrchu pryderon am gontractau sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig mawr.
- 2.24 Nododd rhai bod rhywfaint o dystiolaeth bod proses o gydgrynhoi yn digwydd yn naturiol yn barod. Rydym yn ymwybodol fod rhywfaint o gydgrynhoi yn digwydd yn y farchnad. Ond mae'r gostyngiad yn y ffioedd yn golygu fod yn rhaid i hyn ddigwydd yn gynt ac rydym yn cydnabod bod ar y rhan fwyaf o'r farchnad angen cefnogaeth a rhywfaint o ganllawiau i ystyried ailstrwythuro o'u mewn.
- 2.25 Awgrymodd Otterburn, a llawer o ymatebwyr, nad oedd cystadleuaeth yn hyfyw mewn ardaloedd gwledig gan fod y sail cyflenwyr eisoes wedi'i chydgrynhoi a'i hymestyn yn ormodol. Nid ydym yn credu bod hyn yn rheswm pam na ddylem gystadlu mewn ardaloedd gwledig. Mae'r model yn creu cyfleoedd i'r sefydliadau hynny edrych ar gyfleoedd i wneud cais ar draws mwy nag un ardal caffael neu ymuno ag eraill i weithredu ar draws mwy nag un ardal caffael heb orfod uno'n ffurfiol neu dyfu busnes unigol. Rydym hefyd wedi penderfynu llacio'r gofynion swyddfa ar gyfer sefydliadau sy'n dymuno gwneud cais ar draws ardaloedd caffael sydd wedi'u rhannu a Llundain (i gael mwy o wybodaeth gweler yr adran Y Camau Nesaf).
- 2.26 Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn teimlo bod yr ardaloedd caffael yn rhy fawr, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Fel y nodir yn adran Y Camau Nesaf isod rydym yn gwneud newidiadau mewn perthynas â'r gofynion swyddfa yn yr ardaloedd caffael 'rhanedig' a Llundain a thaliadau am amser teithio sy'n fwy na 1.5 awr i ymdrin â phroblemau mewn ardaloedd gwledig.

Gwaith eu Cleientiaid eu Hunain

- 2.27 Teimlai ymatebwyr na fyddai contractau OCW yn unig yn hyfyw yn y tymor canolig o'u rhan eu hunain - ar hyn o bryd dim ond cyfran fach o ddarparwyr sy'n ymgymryd ag OCW yn unig (VHCC arbenigol neu ddarparwyr cyfraith carchar fel arfer).
- 2.28 Yn Chwefror 2014 fe wnaethom benderfynu caniatáu nifer digyfyngiad o gontractau OCW mewn ymateb i farn y mwyafrif llethol o'r proffesiwn y dylai unigolion gadw'r gallu i ddewis eu darparwr. Ers hynny, mae 1,800 o ddarparwyr wedi gwneud cais

am, ac wedi derbyn, contractau gwaith eu cleientiaid eu hunain sy'n awgrymu eu bod yn ystyried y gwaith hwn fel gwaith hyfyw.

Safiad cyffredinol y Llywodraeth

2.29 Unwaith eto mae'r Llywodraeth wedi cymryd casgliadau Otterburn a sylwadau'r ymatebwyr ar y casgliadau hynny i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniad terfynol ynghylch nifer y contractau DPW. Fel y nodir uchod, prif bwrpas y gwaith oedd casglu data am sefyllfa ariannol bresennol y darparwyr i fwydo i mewn i'r modelu ariannol a wnaed gan KPMG. Roedd arolwg Otterburn yn ymwneud â'r farchnad bresennol, defnyddiodd KPMG yr wybodaeth hon ac, ar y cyd â data am hawliadau LAA, fe greodd fodel ariannol i helpu i lywio penderfyniad ynghylch nifer y contractau DPW i'w cynnig. Roedd y tu hwnt i gwmpas ymchwil Otterburn i roi barn ar nifer y contractau a fyddai'n cael eu cefnogi mewn marchnad ar ôl lleihau'r ffioedd.

Cwestiwn 2. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd gan KPMG? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

- 2.30 Cyn ymdrin â barn yr ymatebwyr ar bob rhagdybiaeth mae'n ddefnyddiol esbonio diben model KPMG. Rydym yn cydnabod y bydd pob sefydliad unigol yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau o ran eu sefyllfa eu hunain yn y farchnad, eu sefydlogrwydd ariannol, eu hawydd i ehangu, eu dull masnachol ac yn y blaen. Nid yw model KPMG yn ceisio rhagweld yn union sut y bydd pob darparwr unigol yn ymateb, oherwydd bydd gan bob un benderfyniadau unigol i'w gwneud. Felly, y ffordd fwyaf priodol i gipio ac ystyried y manteision, yr anfanteision a'r tensiynau rhwng y penderfyniadau hynny yw creu model ariannol yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau.
- 2.31 Rydym ni (a KPMG) bob amser wedi bod yn eglur bod y model yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch ymddygiad yn y dyfodol. Mae gan ragdybiaethau o'r fath elfen o ansicrwydd bob amser. Yn amlwg, ni allwn aros hyd nes ein bod yn gwybod a yw'r rhagdybiaethau yn rhagfynegiadau cywir ai peidio - byddwn yn gwybod dim ond pan fydd y bydd y contractau yn fyw. Mae'r model yn edrych ar yr holl opsiynau ac yn creu procsis ar gyfer ymddygiad y farchnad yn ei gryswth, ond yn y pen draw mater i bob sefydliad unigol yw penderfynu sut y maent am fynd ymlaen.

Safbwyntiau cyffredinol

- 2.32 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn anghytuno gyda'r rhagdybiaethau a gynhwysir ym modelu ariannol KPMG. Roedd llawer yn teimlo nad oeddent yn seilio eu tybiaethau ar ddata Otterburn nac ar unrhyw broses annibynnol - yn lle hynny roeddent yn honni eu bod yn cael eu pennu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ymdrinnir â phob rhagdybiaeth yn ei thro isod, ond nid yw'n wir dweud eu bod wedi eu pennu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder; roeddent yn deillio o gyfuniad o ganfyddiadau Otterburn, arbenigedd KPMG, profiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r sector cyfreithiol, a thrafodaethau gyda Chymdeithas y Gyfraith.
- 2.33 Roedd llawer o'r ymatebion yn beirniadu rhai neu'r cyfan o'r tybiaethau fel rhai afrealistig neu annymunol, gan honni na fyddai eu cwmni yn gweithredu yn y fath fodd.

- 2.34 Wrth roi sylwadau ar y rhagdybiaethau yn adroddiad KPMG, mae'n amlwg fod ymatebwyr yn meddwl yn nhermau sut y maent yn gweithredu yn awr o dan y strwythurau presennol, yn hytrach na sut y byddent yn ymateb i gwrdd â gofynion y system newydd.
- 2.35 Mae'n bwysig pwysleisio na allai'r rhagdybiaethau gael eu hystyried ar wahân gan fod cymhwysio un dybiaeth yn cael effaith ar un arall. Felly, yn ein hymateb i bob pwynt allweddol a godwyd gan ymatebwyr fel y nodir isod, rydym wedi ceisio tynnu sylw at y cydadwaith rhwng pob rhagdybiaeth.
- 2.36 Yn ychwanegol at ein hystyriaeth ni ein hunain o'r ymatebion, fe wnaethom ofyn i KPMG adolygu'r wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac ystyried a oes angen i'w hadroddiad gwreiddiol gael ei newid neu ei ddadansoddi ymhellach. Mae canlyniad eu gwaith yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Gwaith eu Cleientiaid eu Hunain

- 2.37 Teimlai ymatebwyr yn gryf na fyddai darparwyr yn rhoi'r gorau i unrhyw OCW; felly, roedd y rhagdybiaeth o amnewid 50% yn anghywir. Fe wnaethant ddweud bod darparwyr yn gwneud yr hyn a allant i gadw cleientiaid ffyddlon, sydd weithiau yn darparu gwaith ar draws nifer o flynyddoedd a chenedlaethau. Roedd ymatebwyr hefyd yn glir iawn yn eu dadleuon y byddai rhoi'r gorau i OCW mewn gwirionedd yn niweidio enw da'r sefydliad ac yn lleihau'r hyn y maent yn teimlo sydd ar hyn o bryd yn 'wir farc ansawdd' y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol. Nododd rhai bod busnesau yn cael mwy o sicrwydd gan eu cleientiaid eu hunain, tra roedd y gwaith dyletswydd yn fwy o 'loteri' ac y byddai angen y ddau ar unrhyw sefydliad i oroesi.
- 2.38 Rydym yn cydnabod na fyddai unrhyw sefydliad yn dymuno rhoi'r gorau i unrhyw OCW ac mewn sector lle mae gormod o sefydliadau yn mynd ar ôl rhy ychydig o waith, y bydd darparwyr yn gwneud eu gorau i sicrhau eu bod yn cadw cymaint o gleientiaid ag y bo modd. Ond nid yw'r model yn gorfodi sefydliad i gymryd unrhyw gamau penodol ond yn cymryd yn ganiataol y bydd sefydliadau yn gwneud dewis. Bydd rhai cwmnïau yn dewis cadw eu holl OCW ac efallai felly y bydd yn rhaid iddynt dyfu eu busnes. Ni fydd eraill yn tyfu eu busnes (mae rhai yr ymgynghorwyd â hwy wedi dweud hyn mewn ymateb) naill ai allan o ddewis neu oherwydd eu bod yn cael eu cyfyngu o ran eu capasiti. Gan fod contractau DPW yn cynnig mwy o sicrwydd o ran cyfaint, rydym yn credu y byddai'r sefydliadau hynny nad ydynt yn tyfu, pan wynebir nhw gyda'r dewis hwnnw, yn ildio OCW.
- 2.39 Rydym yn cydnabod y bydd pob sefydliad yn ymddwyn mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u dull eu hunain o gyflwyno'r gwasanaethau. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn cynnig ei hun i gynnwys rhagdybiaeth i gynnwys natur anrhagweladwy'r gwaith.
- 2.40 Ond er bod nifer o ymatebwyr wedi dadlau na fyddent yn ildio unrhyw OCW, roeddent yn dadlau hefyd nad oeddent yn gallu ehangu yn ddigonol drwy dwf organig neu drwy ddefnyddio capasiti cudd.
- 2.41 Ni wnaeth y mwyafrif llethol o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau negyddol ar y rhagdybiaeth hon roi unrhyw ddadansoddiad o ran sut y byddent yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan contract DPW yn ymarferol wrth gadw'r holl OCW (ee dim tystiolaeth o sut y byddent yn tyfu i ateb yr her, recriwtio mwy o staff ac ati). Mae tensiwn rhwng rhagdybiaethau ynghylch amnewid OCW a thwf organig a gallu cudd.

Bydd darparwyr sy'n awgrymu y byddant yn ei chael hi'n anodd tyfu yn ôl y swm sy'n angenrheidiol i fodloni eu Contract DPW, yn cael eu hwynebu gyda dewis o ran sut y maent yn gwasanaethu eu contract DPW.

- 2.42 Er ein bod wedi ailystyried y rhagdybiaeth o 50% a roddwyd mewn ymatebion i'r ymgynghori a barn KPMG (yr ydym yn cytuno â hi) sef "Ni fydd unrhyw dystiolaeth o'r hyn fydd mewn gwirionedd yn digwydd ar gael hyd nes i'r contractau gael eu gosod", nid ydym wedi rhedeg y model gyda chadw 100% o'r OCW (y ffigur a gynigiwyd gan y rhan fwyaf o ymgynghoreion a awgrymodd ffigur arall) oherwydd bod y pwyntiau eraill a wnaed gan ymgynghoreion (ynghylch her twf a gallu cudd) mewn gwirionedd yn rhoi arwydd cryf na fyddai sefydliadau yn gallu cwrdd â'r her twf sy'n gysylltiedig â chadw 100% o OCW a dal contract dyletswydd newydd. Mae hyn yn awgrymu bod ymatebwyr, wrth nesáu at y rhagdybiaeth o 50%, yn canolbwyntio ar yr hyn yr hoffent ei weld yn digwydd yn y dyfodol yn hytrach na'r hyn y byddent yn gallu ei wneud.

Twf Organig

- 2.43 Ymateb y mwyafrif oedd nad yw twf organig o 20% yn dybiaeth resymol i'w gwneud o ystyried y gostyngiad posibl o 17.5% a'r effaith y byddai hyn yn debygol o'i gael ar gyflogau os mai dyna'r modd y byddai sefydliadau yn ei ddewis i wneud arbedion effeithlonrwydd. Mae nifer o ymatebwyr yn dadlau oherwydd lefelau isel o elw i sefydliadau yn y farchnad hon, na all darparwyr fuddsoddi yn y newidiadau strwythurol sydd eu hangen i recriwtio staff newydd, yn enwedig os oes eu hangen yn gyflym. Tynnwyd sylw at y farn hon gan Otterburn ei hun yn ei ymateb i'r ymgynghoriad diweddaraf.
- 2.44 Mae'n amlwg wrth ymateb i'r dybiaeth hon fod ymarferwyr a chyrrff cynrychioliadol yn meddwl yn nhermau sut y maent yn gweithredu yn y farchnad ar hyn o bryd, a'u gallu i recriwtio wrth wynebu 17.5% o ostyngiad yn y ffioedd ac argaeledd adnoddau. Mewn marchnad wedi'i chydgrynhoi, gyda mynediad cyfyngedig i DPW, dylai fod yn haws i'r darparwyr sy'n ennill y Contractau hynny recriwtio staff allanol. Yn ogystal, bydd cydgrynhoi'r farchnad yn gofyn am ailstrwythuro sail costau sefydliadau, a fydd yn cynhyrchu arbedion maint a allai sbarduno arbedion heb o reidrwydd orfod lleihau cyflogau enillwyr ffioedd. Gallai sefydliadau ddewis gostwng costau staff hefyd. Nid yw darparwyr wedi darparu tystiolaeth ynghylch pam nad ydynt yn gallu tyfu. Y dybiaeth am newydd-ddyfodiaid oedd nid y byddai newydd-ddyfodiaid yn chwaraewyr newydd sbon yn y farchnad hon ond yn hytrach y byddai'r farchnad yn ad-drefnu trwy broses o uno, mentrau ar y cyd a phartneriaethau. Efallai y bydd rhai cwmnïau presennol yn ehangu i feysydd caffael newydd. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu cyfrif fel newydd-ddyfodiaid yn ein model.
- 2.45 Er bod rhai ymatebwyr wedi awgrymu y gallant dyfu eu busnes i raddau mwy nag y mae'r model yn rhagdybio (awgrymwyd un o tua 40% o'i gymharu â'r 20% a gynhwysir yn y model), roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr oedd yn dadlau na fyddai unrhyw ddarparwr yn rhoi'r gorau i waith eu cleientiaid eu hunain (gweler uchod) yn dadlau hefyd na allant dyfu eu busnesau i'r graddau sy'n ofynnol gan y cynigion.
- 2.46 Fel y nodwyd uchod, mae tensiwn rhwng rhagdybiaethau ynghylch amnewid OCW a thwf organig a gallu cudd. Bydd darparwyr sy'n awgrymu y byddant yn ei chael hi'n anodd tyfu yn ôl y swm angenrheidiol i gwrdd â'u Contract DPW, yn cael eu hwynebu gyda dewis o ran sut y maent yn gwasanaethu eu contract DPW. Gallai darparwyr nad ydynt yn gallu ehangu eu busnes (twf organig) neu ymuno â

sefydliadau eraill (trwy bartneriaethau cyflenwi neu fentrau ar y cyd) archwilio cyfleoedd i ddefnyddio adnodd nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol (capasiti cudd) neu roi'r gorau i rywfaint o'u OCW.

Gallu Cudd

- 2.47 Dywedodd ymatebwyr fod y 15% o allu cudd yn anghywir ac yn seiliedig ar gyfrifiad annilys. Mae gwaith yn cael ei wneud mewn amser 'marw' ar ddyletswydd pan nad yw'r gweithiwr yn ymateb i alwad. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae rotas hefyd yn llawer hwy nag 8 awr.
- 2.48 O dan y dull newydd o ddyrannu, bydd Darparwyr Dyletswydd yn derbyn cyfran gyfartal o slotiau i ddarparu ar eu cyfer fel y gwelant orau (ar yr amod bod hyn yn bodloni gofynion cytundebol) ac nid yn seiliedig ar nifer y Cyfreithwyr Gwaith Dyletswydd y maent yn eu cyflogi. Bydd y defnydd o gynrychiolwyr achrededig a hyblygrwydd y gwaith o ddarparu adnoddau ar gyfer slot dyletswydd penodol gan gwmni yn hytrach na chan unigolyn yn galluogi sefydliadau i archwilio cyfleoedd pellach i fanteisio ar unrhyw gapasiti cudd sydd ganddynt.
- 2.49 Dadleuodd ymatebwyr nad oedd unrhyw dystiolaeth os yw darparwyr wedi lleihau eu busnes yn y blynyddoedd diwethaf y byddai ganddynt y gallu cudd i gynyddu'n ôl. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith fod KPMG yn dweud mai 'arwyddion anecdotaidd' yn unig sydd o allu cudd.
- 2.50 Ar y cyfan, mae maint y gwaith wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae nifer y cyfreithwyr gwaith dyletswydd sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol yn fras yr un fath. Mae hyn yn awgrymu bod capasiti yn y farchnad i ymgymryd â mwy o waith hyd yn oed heb hyblygrwydd y system newydd a ddisgrifir uchod.
- 2.51 Fel y nodwyd uchod, mae tensiwn rhwng rhagdybiaethau ynghylch amnewid OCW a thwf organig a gallu cudd. Bydd darparwyr sy'n awgrymu nad oes ganddynt unrhyw adnodd wedi'i danddefnyddio yn eu sefydliad yn gorfod wynebu dewis am sut y maent yn gwasanaethu eu cytundeb DPW. Mae darparwyr nad oes ganddynt unrhyw adnodd wedi'i danddefnyddio (capasiti cudd) yn gallu ymchwilio i gyfleoedd i ehangu eu busnes (twf organig) neu ymuno â sefydliadau eraill (trwy bartneriaethau cyflenwi neu fentrau ar y cyd) yn gallu rhoi'r gorau i neu roi'r gorau i rywfaint o'u OCW.

Proffidioldeb

- 2.52 Dywedodd ymatebwyr nad mantoli'r cyfrifon oedd y lefel isaf o broffidioldeb ar gyfer masnachu cynaliadwy. Roedd rhai ymatebwyr yn camddehongli'r dybiaeth hon, gan gredu bod KPMG a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awgrymu y byddai sefydliadau yn cynnig am gontract gan dderbyn mai dim ond 0.1% fyddai maint yr elw.
- 2.53 0.1% yw'r llawr ym model KPMG - nid dyhead a awgrymir. Mae'r model yn sicr yn caniatáu i ddarparwyr wneud elw (gan gynnwys elw dros y 5% a amlinellwyd gan Otterburn) ac nid yw'r Llywodraeth yn atal darparwyr rhag gwneud elw o'r fath. Ond nid yw'r Llywodraeth yn credu y byddai'n briodol cynnwys o fewn y model ar gyfer penderfynu faint o gontractau DPW a roddir, y rhagdybiaeth y dylai darparwyr wneud elw sylweddol o waith a ariennir yn gyhoeddus, neu i nodi beth ddylai'r lefel benodol o elw fod.

- 2.54 Dangosodd y model er mwyn cyflawni mwy o elw y byddai angen i sefydliadau archwilio i fwy o arbedion effeithlonrwydd o ran y staff. Ar y llaw arall, gallai sefydliadau offsetio'r angen i ddod o hyd i fwy o arbedion effeithlonrwydd o ran y staff trwy edrych ar dulliau i ddefnyddio capasiti cudd. Mae'r model yn canolbwyntio ar y darparwr ymgeisio lleiaf o fewn ardal ac yn asesu'r her o ran effeithlonrwydd staff i'r darparwr arbennig hwnnw i fantoli'r cyfrifon. Mae'r darparwr ymgeisio mwy o fewn yr ardal honno yn debygol o fod yn fwy proffidiol na'r rhai lleiaf.²
- 2.55 Mae rhagdybiaeth o 0.1% o elw yn tybio y bydd yr holl staff gan gynnwys partneriaid ecwiti yn cael eu talu'n briodol a bod yr holl gostau presennol yn cael eu talu. Ni fydd sefydliad yn gwybod cyn i contract gael ei ddyfarnu pa lefel o elw y gallent ei wneud, ac yn amlwg ni fydd yn anelu at wneud elw mor isel â 0.1%. Ond ar y dybiaeth (yn groes i'w ddisgwyliadau ei hun) y bydd sefydliad yn cyflawni elw mor isel â 0.1% yn unig, ac yna gan gadw mewn cof bod yr holl staff wedi cael eu talu a'r costau wedi eu clirio ni fyddai'r sefydliad yn mynd yn anhyfyw oherwydd mai mantoli'r cyfrifon yn unig a wnaeth a gallai barhau i fasnachu. Byddai sefydliad a fyddai'n mynd mor isel â 0.1% o elw yn debygol o ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd o wneud arbedion pellach er mwyn gwella ei broffidioldeb yn y dyfodol. Ar y llaw arall, gallai sefydliadau offsetio'r angen i ddod o hyd i fwy o arbedion effeithlonrwydd ymhlith staff trwy archwilio dulliau o ddefnyddio capasiti cudd.
- 2.56 Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd gan ymatebwyr. Cafodd pob un o'r pwyntiau a godwyd ei godi naill ai gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, gan ymarferwyr neu gan gyrff cynrychioliadol eraill mewn ymarferion ymgynghori blaenorol neu drwy'r ymgysylltu helaeth drwy gydol y broses honno.

Maint troseddu


- 2.57 Ailadroddodd nifer o ymatebwyr eu harsylwadau bod maint troseddu wedi gostwng dros y blynyddoedd blaenorol ac mae gwariant ar gymorth cyfreithiol troseddol wedi gostwng hefyd. Felly, maent yn dadlau y dylai unrhyw ragolwg a ddefnyddir i benderfynu ar faint contractau a arweinir gan faint troseddau gynnwys rhagdybiaeth y bydd maint troseddu yn parhau i ostwng.
- 2.58 Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi rhoi ystyriaeth fanwl bellach i'n rhagdybiaeth y bydd maint troseddu yn parhau i fod yn wastad dros gyfnod y contract ac rydym wedi ystyried goblygiadau hyn ar nifer y contractau sydd ar gael. Mae dau brif ffactor i'w hystyried:
- A yw'r rhagdybiaeth am faint troseddu yn aros yn debyg i'r hyn y mae ar hyn o bryd, yn y tymor canolig, yn un rhesymol i'w wneud (ee a ydym yn disgwyl i faint troseddu barhau i ostwng yn y dyfodol)?
 - A fyddai defnyddio data mwy diweddar i asesu nifer y contractau yn ein harwain i newid unrhyw beth?

A yw rhagdybiaeth ynghylch maint y troseddu yn aros yn debyg i'r hyn y mae ar hyn o bryd yn briodol?

² Gweler tudalen 34 adroddiad KPMG

2.59 Mae'n bwysig nodi nad yw maint achosion ar ei ben ei hun yn sbarduno gwariant cymorth cyfreithiol. Mae yna ffactorau eraill sy'n bwysig:


- Ffactorau o'r ochr gyflenwi - Yn ymarferol bydd HMCTS/GLITEM yn ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth bennu ei lefelau diwrnod eistedd ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol a roddwyd, gan gynnwys achosion heb eu prosesu, derbynebaw, gwarediadau a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar y system gyfiawnder ehangach. Mae'r penderfyniadau hyn am faint y gwaith sy'n mynd trwy'r llys yn cael effaith sylweddol hefyd ar wariant cymorth cyfreithiol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gallai cynnydd mewn diwrnodau eistedd yn y dyfodol arwain at gynnydd mewn gwariant ar gymorth cyfreithiol.
- Materion yn ymwneud â'r cymysgedd o achosion - mae cymysgedd y troseddau yn cael effaith fawr ar wariant ar gymorth cyfreithiol - mae dadansoddiad LAA o dueddiadau diweddar yn dangos bod y lefelau is o droseddau llai difrifol yn lleihau, ond nad yw hyn yn wir ar gyfer troseddau cymhleth, mwy drud. Mae'r graff isod yn dangos sut mae nifer y treialon ar gyfer trais, difrod neu gyffuriau troseddau llai difrifol yn lleihau, wrth i nifer y treialon ar gyfer troseddau rhywiol difrifol gynyddu. Mae cael achosion mwy difrifol a chymhleth yn Llys y Goron yn rhoi pwysau i gynyddu gwariant cymorth cyfreithiol.



2.60 Mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar wariant cymorth cyfreithiol i raddau gwahanol yn dibynnu ar p'un a yw'r gwaith yn waith a wneir cyn cyhuddo, yn waith ôl-dâl neu yn waith ymgyfreitha yn Llys y Goron.

2.61 Ar gyfer gwariant ar waith cyn cyhuddo yng ngorsaf yr heddlu, mae nifer yr achosion cymorth cyfreithiol sy'n mynd drwy orsaf yr heddlu yn amlwg yn ffactor pwysig. Ond bydd lle mae'r achos yn codi yn ddaearyddol yn cael effaith hefyd ar wariant cyffredinol gan fod achosion yn cael eu talu ar wahanol gyfraddau yn dibynnu ar eu lleoliad.

- 2.62 Er bod niferoedd yr achosion yn effeithio ar wariant cymorth cyfreithiol yn llysoedd yr ynadon a Llys y Goron hefyd, mae cymhlethdod y cymysgedd o achosion a nifer y diwrnodau eistedd hefyd yn chwarae rhan bwysig.
- 2.63 Ar hyn o bryd mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd yn ganiataol y bydd niferoedd yr achosion yn parhau yn weddol ddigyfnewid yn y dyfodol wrth ragweld gwariant ar gymorth cyfreithiol gan ei bod yn anodd iawn rhagweld troseddu. Mae nifer o ffactorau y tu ôl i niferoedd achosion o droseddu sy'n anodd eu rhagweld.
- 2.64 Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn dangos bod cyfanswm yr achosion o waith cymorth cyfreithiol wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Ond mae'r data yn dangos hefyd bod anwadlwydd yn swm y gwaith bob blwyddyn, yn arbennig yn Llys y Goron, a bod niferoedd yr achosion ar y cyfan yn dechrau gwastatau. Yn wir, roedd nifer yr achosion cyn cyhuddo yn 2013/14 yn uwch nag yn 2012/13, y cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn cyntaf ers 2008/09.



- 2.65 Yn ogystal, mae rhai dangosyddion yn awgrymu y gallwn efallai hefyd ddisgwyl i niferoedd mewn meysydd eraill godi mewn blynyddoedd i ddod; er enghraifft, cynyddodd ceisiadau am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron o 112,607 yn 2012/13 i 122,094 yn 2013/14, a allai awgrymu cynnydd yn y dyfodol yn nifer yr achosion yn Llys y Goron (sy'n tueddu i fod yr achosion mwyaf drud).
- 2.66 O ystyried yr anhawster o ran rhagweld troseddu a'r data diweddaraf ar niferoedd achosion, ni fyddai'n ddoeth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ragdybio y bydd troseddu yn gostwng yn barhaus i'r dyfodol.
- 2.67 Gan gymryd yr holl ffactorau hyn i ystyriaeth, ein barn ni o hyd yw bod cymryd bod niferoedd achosion cymorth cyfreithiol yn aros yn gyson ar y lefelau presennol yn y dyfodol yn rhagdybiaeth ddoeth at ddibenion cynllunio ariannol, ac ar gyfer dadansoddi nifer priodol y contractau gwaith dyletswydd i'w dyfarnu.

A yw data mwy diweddar 2013/14 yn newid ein barn am nifer y contractau?

- 2.68 Er mwyn asesu a fyddai mwy o wybodaeth ddiweddar wedi arwain at newidiadau ar raddfa eang i niferoedd y contractau, rydym wedi ystyried a yw data 2013/14 yn sylweddol wahanol i'r data a ddarparwyd i KPMG ar gyfer y dadansoddiad a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymateb i'r ymgynghoriad yn Chwefror 2014. Pan wnaeth KPMG eu dadansoddiad gwreiddiol roedd y data diweddaraf oedd ar gael am y cyfnod Hydref 2012 i Fedi 2013 (blwyddyn ariannol hybrid). Ers i adroddiad KPMG gael ei gyhoeddi, mae data'r flwyddyn ariannol lawn ar gyfer 2013/14 wedi ymddangos. Ar lefel gyfanredol, mae DPW yn y data newydd yn debyg iawn i'r data a ddefnyddiwyd gan KPMG. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn credu nad yw diwygiadau cyffredinol i ddadansoddiad KPMG yn angenrheidiol.
- 2.69 Ond rydym yn cydnabod y gallai'r data oedd ar gael ar yr adeg y gwnaeth KPMG eu dadansoddiad gwreiddiol mewn rhai ardaloedd yn ddata nad oedd yn rhoi arwydd 'nodweddiadol' o faint y gwaith dyletswydd oedd ar gael (o ganlyniad i faterion gweithredol mewn gorsafoedd heddlu penodol) ac felly gallai'r ardaloedd hyn fod angen sylw pellach. Ym mhob ardal caffael, rydym wedi gwneud asesiad o p'un a ydym yn gweld newid mawr yn yr amcangyfrif o waith dyletswydd wrth archwilio data 2013/14 o'i gymharu â'r flwyddyn hybrid. Mae hyn er mwyn i ni allu gwneud dyfarniad ynghylch a ddylem gymryd barn wahanol ar nifer y contractau i'w cynnig.
- 2.70 Ar wahân i unrhyw newidiadau i nifer yr achosion a gwerthoedd, wrth lunio barn am nifer y contractau ym mhob ardal, mae nifer o ffactorau eraill i'w hystyried. Y rhain yw:
- Os oes gan yr ardal caffael isafswm o 4 contract wedi'u dyfarnu am resymau mynediad i gyfiawnder.
 - Yr her o ran effeithlonrwydd staff ym mhob ardal caffael a sut y gallai newidiadau yng ngwerthoedd contractau effeithio ar hyn.
 - Yr her i gydgrynhoi ym mhob ardal caffael a sut y gallai newidiadau yng ngwerthoedd contractau effeithio ar hyn.
- 2.71 Ar lefel ardal caffael unigol fe wnaethom edrych yn fanwl ar y flwyddyn data ddiweddaraf (2013/14) o'i gymharu â'r data a ddarparwyd i KPMG (Hydref 2012 i fis Medi 2013) i benderfynu a oedd y gwaith dyletswydd ym mhob ardal caffael a ddarparwyd i KPMG yn gynrychiolaeth nodweddiadol o waith dyletswydd yn yr ardal honno. Pan ddangosodd y dadansoddiad efallai nad oedd blwyddyn 12 Hydref - 13 Medi wedi bod yn gynrychiolaeth nodweddiadol o waith mewn ardal, fe wnaethom ystyried a oedd angen ailedrych ar nifer y contractau gwaith dyletswydd oedd ar gael, gan roi ystyriaeth hefyd i'r ffactorau a nodir uchod.
- 2.72 Mae ystyriaeth ofalus o'r dadansoddiad hwn wedi ein harwain i farnu bod data 2013/14 yn fwy cynrychioliadol o'r hyn yr ydym yn disgwyl i DPW yn y dyfodol fod mewn pum ardal. Cafodd dwy ardal, Richmond-upon-Thames a Suffolk, ostyngiadau mewn gwaith dyletswydd a oedd angen ystyriaeth bellach; ond roedd yr isafswm o bedwar contract eisoes wedi cael eu cynnig yn yr ardaloedd hyn ac felly nid oes unrhyw newidiadau i niferoedd y contractau wedi cael eu gwneud.
- 2.73 Roedd angen rhoi ystyriaeth bellach i dair ardal caffael yn Llundain ac rydym yn addasu nifer y contractau yn yr ardaloedd hyn. Yn Camberwell Green byddwn yn cynnig dau gontract ychwanegol, yn Kingston-upon-Thames un contract ychwanegol ac yn Wimbledon un contract yn llai. Oherwydd ein bod wedi sylwi ar wahaniaethau mawr mewn DPW yn y data diweddar - o ganlyniad i resymau gweithredol, sy'n

mynd i barhau yn y dyfodol - rydym yn gallu amrywio nifer y contractau yn yr ardaloedd hyn a chynnal effeithlonrwydd y staff a'r her i gydgrynhoi yn debyg i'r hyn sy'n cael ei adrodd gan KPMG.

2.74 Ar y cyfan, mae'r asesiad hwn yn darparu dau contract ychwanegol i ni - sy'n mynd â'r nifer rhif terfynol i 527.

Cynigwyr isaf am densiwn cystadleuol / effeithlonrwydd staff / deiliaid graddfa/ trothwyon cydgrynhoi'r farchnad

- 2.75 Roedd ymatebwyr yn meddwl bod y dybiaeth ynglŷn â newydd-ddyfodiaid yn annhebygol o fod yn wir o ystyried yr elw isel yn y maes hwn. Y dybiaeth am newydd-ddyfodiaid oedd nid y byddai newydd-ddyfodiaid yn chwaraewyr newydd sbon yn y farchnad hon, yn hytrach y byddai'r farchnad yn ad-drefnu trwy broses o uno, mentrau ar y cyd a phartneriaethau. Gallai rhai cwmnïau presennol ehangu i feysydd caffael newydd. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu cyfrif fel newydd-ddyfodiaid yn ein model.
- 2.76 Roedd ymatebwyr yn meddwl hefyd y byddai'n annhebygol y byddai sefydliadau yn gallu gwneud arbedion mawr mewn costau staff, o gofio bod cydnabyddiaeth wedi'i rewi ers nifer o flynyddoedd, a'i dorri ymhellach yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd cydgrynhoi'r farchnad yn gofyn am ailstrwythuro sylfaen costau sefydliadau, a fydd yn cynhyrchu arbedion maint, ac a fydd yn arwain at arbedion heb o reidrwydd orfod lleihau cyflogau enillwyr y ffioedd. Gallai sefydliadau ddewis gostwng costau staff hefyd.
- 2.77 Nododd ymatebwyr fod adroddiad KPMG, dyddiedig 11 Mawrth yn nodi dim ond 23 o ardaloedd a fyddai'n hyfyw ac a fyddai â digon o gapasiti i ymdopi â'r contractau newydd. Mae adroddiad KPMG yn nodi'r modelu ariannol a wnaed i roi cyngor ar ystod o gontractau DPW ym mhob ardal caffael, yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau a'r heriau o ran cydgrynhoi a hyfywedd ariannol ar gyfer y farchnad ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o ardaloedd lle roedd yr her o ran cydgrynhoi'r farchnad a/neu'r her o ran hyfywedd ariannol yn uwch na'r trothwyon a byddai angen archwilio'r rhain ymhellach os byddent yn mynd y tu hwnt i hyn. Mae KPMG wedi cadarnhau nad oes unrhyw dystiolaeth newydd o fewn yr ymatebion i'r ymgynghoriad diweddaraf sy'n gwneud diweddarad i'w hadroddiad yn angenrheidiol. Rydym wedi ystyried y cyngor hwn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac nid ydym wedi cael ein perswadio bod dystiolaeth i'w gwneud yn angenrheidiol i ni newid ein safiad.

Safiad cyffredinol y Llywodraeth

- 2.78 Wrth roi sylwadau ar y rhagdybiaethau yn adroddiad KPMG, mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn meddwl o ran sut y maent yn gweithredu yn awr yn yr amgylchedd presennol, yn hytrach na meddwl am y dyfodol a sut y byddent yn ymateb i gwrdd â gofynion y system DPW newydd.
- 2.79 Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r cyngor pellach gan KPMG, rydym wedi ailystyried y rhagdybiaethau. Rydym yn credu bod y rhagdybiaethau yn parhau i fod yn rhagfynegiadau priodol o ymddygiad yn y dyfodol i seilio ein penderfyniad arnynt. Nid yw hyn yn golygu y gallwn fod yn sicr y bydd marchnadoedd yn wir yn ymddwyn mewn modd sy'n "cydymffurfio" gyda'r tybiaethau - ond rydym yn eu hystyried fel rhagdybiaethau cadarn i seilio penderfyniad arnynt. Am y rhesymau a amlinellir uchod, nid ydym yn credu bod rhagdybiaethau eraill sy'n rhagfynegiadau mwy priodol o ymddygiad yn y dyfodol na'r tybiaethau a ddefnyddiwyd gan KPMG.

- 2.80 Mae barn yr ymatebwyr, yn enwedig o ran y rhagdybiaeth o amnewid 50% o OCW, yn dangos i ba raddau y mae'r model KPMG yn union hynny - model - a bydd sefydliadau yn gwneud penderfyniadau sydd orau iddynt hwy yn hytrach nag o reidrwydd yn gweithredu'n union yn unol â'r model. Nid oes unrhyw fodel yn gallu adlewyrchu pob un o'r penderfyniadau unigol y gallai sefydliadau eu gwneud.
- 2.81 Cyflwynodd KPMG ystod o niferoedd contractau DPW ar gyfer pob ardal caffael ar ôl asesu gallu'r farchnad i ymdopi â dwy her: cydgrynhoi a hyfywedd ariannol. Y penderfyniad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, yn unol â'r cais gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, oedd cynnig y nifer fwyaf o Gontractau DPW o fewn ystod KPMG.
- 2.82 Fel y trafodwyd uchod, nid yw model KPMG yn ceisio rhagweld yn union sut y bydd pob darparwr unigol yn ymateb, oherwydd y bydd gan bob un benderfyniadau unigol i'w gwneud. Er enghraifft, roedd bron yr holl ymatebwyr yn anghytuno â'r dybiaeth y byddai sefydliadau yn amnewid unrhyw OCW er mwyn ymgymryd â DPW, gan ddadlau yn lle hynny y byddai sefydliadau yn cadw 100% o lwyth gwaith eu cleientiaid eu hunain. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn anghytuno gyda'r rhagdybiaeth y byddai'n bosibl sicrhau twf o 20% mewn capasiti trwy recriwtio. Ar ben hynny, roeddent yn dadlau nad oes gan sefydliadau gapasiti cudd. Ymddengys bod y tair dadl hyn yn gwrthdaro â'i gilydd. Gellid cadw OCW drwy ailddyrrannu adnoddau o OCW, drwy ehangu trwy recriwtio, neu drwy ddefnyddio capasiti sy'n cael ei danddefnyddio. Fel yr uchod, rydym yn deall y gallai pob un o'r strategaethau hyn ymddangos yn annymunol o fewn y strwythurau presennol, ond dyma'r dewisiadau y bydd sefydliadau yn eu hwynebu pan ddyfernir cais iddynt neu pan benderfynir cynnig am gontract DPW.
- 2.83 Ar ôl ailystyried y tybiaethau a gofyn am farn KPMG, fe wnaethom roi ystyriaeth bellach i un o'r rhagdybiaethau - y bydd niferoedd yr achosion yn aros yn weddol ddigyfnewid. Fel y nodwyd uchod, mae ein hystyriaeth bellach wedi ein harwain i'r casgliad mai rhagdybiaeth am niferoedd yr achosion yn aros yn weddol ddigyfnewid yw'r un mwyaf priodol. Rydym o'r farn nad oes unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol newydd sy'n gwneud i ni dybio nad yw'r tybiaethau yn adlewyrchiad rhesymol o'r newidynnau penderfynu y bydd angen i ddeiliaid contractau gwaith dyletswydd newydd eu hystyried. Er nad oedd bron pob un o'r 3942 o ymatebwyr yn cytuno â'r tybiaethau (a chyflwynodd rhai ddadleuon am un rhagdybiaeth oedd yn groes i'w dadleuon ynghylch tybiaethau eraill) nid oeddent yn darparu tystiolaeth bod y rhagdybiaethau yn anghywir ac, o'u cymryd gyda'i gilydd, roeddent yn dangos nad oedd ymatebwyr yn ystyried sut y gallent ymateb pe bai contract gwaith dyletswydd yn cael ei ddyfarnu iddynt yn y dyfodol.
- 2.84 Er ein bod yn cydnabod y pryderon ynghylch nifer o'r tybiaethau y dibynnwyd arnynt gan KPMG, rydym yn nodi bod y pryderon yn debygol o dynnu nifer y contractau i gyfeiriadau gwahanol. Hyd yn oed os ydym yn derbyn bod achos dros newid y rhagdybiaethau nid yw'n glir y byddai hyn yn arwain at ystod o niferoedd contractau sy'n sylweddol wahanol i'r ystod a ddarparwyd gan KPMG.

Cwestiwn 3. A oes gennych unrhyw sylwadau am y dadansoddiad a gynhyrchwyd gan KPMG? Rhwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

- 2.85 Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod dadansoddiad KPMG yn seiliedig ar ragdybiaethau diffygiol. Dywedodd rhai nad oedd adroddiad KPMG yn cymryd partneriaethau cyflenwi i ystyriaeth wrth benderfynu ar y referniw lleiaf sydd ei angen i fod yn hyfyw. Nododd rhai bod KPMG yn tynnu sylw at yr heriau ar gyfer y farchnad wrth gydgrynhoi yn y ffordd y mae'r model yn ei gwneud yn ofynnol. Mewn perthynas â Llundain awgrymwyd os yw sefydliad yn un o'r cynigwyr mwyaf mewn mwy nag un ardal, y bydd ei ehangu yn cael effaith ar y cynnydd sy'n ofynnol gan gyrrff eraill yn yr ardaloedd hyn, a allai olygu bod yr ehangu sydd ei angen yn Llundain wedi cael ei amcangyfrif yn rhy isel.
- 2.86 Mae ymagwedd KPMG at ddatblygu'r model yn cael ei nodi'n glir yn adroddiad KPMG. Fel y nodwyd uchod, mae'r golygfeydd o'r ymatebwyr ynghylch y gwahanol safbwyntiau ac ymagweddau yn dangos i ba raddau y mae'r model KPMG yn union hynny - model - a bydd sefydliadau yn gwneud penderfyniadau sydd orau iddynt hwy yn hytrach nag o reidrwydd yn gweithredu'n union yn unol â'r model. Ni wnaeth KPMG unrhyw ragdybiaethau ynghylch sut y gallai'r farchnad dyfu.
- 2.87 Fel y nodwyd uchod, nid ydym yn cytuno na fydd sefydliadau sy'n ennill contractau gwaith dyletswydd yn gallu tyfu. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith cefnogi partneru busnes, a weithredir gan dîm o arbenigwyr cymorth busnes yn yr LAA i gynnig gwybodaeth ac arweiniad i ymarferwyr sy'n chwilio am gymorth o ran ailstrwythuro eu busnes a sut i fynd ati i ofyn am gefnogaeth ariannol. Rydym hefyd wedi agor trafodaethau penodol am y farchnad cymorth cyfreithiol gyda Banc Busnes Prydain (BBB), Corff Hyd Braich sy'n adrodd i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Rydym wedi datblygu canllawiau yn benodol ar gyfer y farchnad cymorth cyfreithiol ar y cyd â'r BBB y mae cynhyrchion ariannol a gefnogir gan y Llywodraeth, megis y Gwarant Cyllid Menter, ar gael i'r farchnad cymorth cyfreithiol arnynt.
- 2.88 Yn ogystal, bwriedir i'r darpariaethau newydd ynghylch taliadau interim ar gyfer ymglyfreithwyr sy'n gweithio ar achosion Llys y Goron hir a gyflwynwyd yn ddiweddar gennym ymdrin â materion llif arian. Bydd y darpariaethau hynny o gymorth sylweddol i leihau effaith y gostyngiadau mewn ffioedd, a bydd yn helpu darparwyr i reoli unrhyw heriau ynghylch llif arian a ddaw yn sgil y trawsnewid.
- 2.89 Rydym eisoes yn gweld rhywfaint o dystiolaeth o raddio i fyny. Mae rhai cwmnïau cymorth cyfreithiol troseddol eisoes wedi cymryd camau i baratoi ar gyfer caffael drwy uno.

Cwestiwn 4. A oes gennych unrhyw farnau ar sylwadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a nodir yn y ddogfen hon? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

- 2.90 Dywedodd ymatebwyr fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn anghywir i dderbyn y tybiaethau a gynhwysir yn adroddiad KPMG ac yn anghywir i gredu bod cydgrynhoi o reidrwydd yn cynhyrchu arbedion maint. Dadleuodd yr ymatebwyr y bydd lefelau ansawdd yn disgyn, ac mai rhith fydd dewis i'r cleient os bydd yn rhaid i nifer fawr o ddarparwyr gau. Dywedodd ymatebwyr hefyd nad oedd Y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi rhoi sylw i argymhellion KPMG oedd yn gofyn am fwy o ystyriaeth a dadansoddiad ee y naw ardal sy'n wynebu'r heriau mwyaf.
- 2.91 Fel y nodwyd uchod, rydym yn credu bod y rhagdybiaethau yn parhau i fod yn rhagdybiaethau rhesymol i ddibenion modelu. Bydd y model yn sicrhau y bydd gan gleientiaid, fel ar hyn o bryd, ddewis o gynrychiolydd. Er y bydd cronfa lai o ddeiliaid contractau gwaith dyletswydd rydym eisoes wedi gosod 1,800 o gontractau gwaith eu cleientiaid eu hunain. Mae data Otterburn yn awgrymu bod arbedion maint yn y farchnad hon gan fod darparwyr gyda chyfraddau uwch o elw yn tueddu i fod â lefelau uwch o refeniw. Yn yr ardaloedd caffael mae gennym sefydliadau rhanedig a fydd yn gallu gwneud cais yn y ddwy ardal os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fel y nodwyd uchod, rydym yn caniatáu taliad am amser teithio dros 1.5 awr i wneud contractau gwaith dyletswydd yn fwy cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig.

Cwestiwn 5. Os yw'r rhagdybiaethau a'r data y mae argymhellion KPMG yn seiliedig arnynt yn dal i fod yn addas, a ydych chi o'r farn fod unrhyw reswm dros beidio â derbyn yr uchafswm posibl o nifer contractau (525), fel mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i wneud? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

- 2.92 Nid yw ymatebwyr yn gyffredinol yn awgrymu nifer penodol o gontractau. Awgrymodd rhai y dylai KPMG ailedrych ar eu modelu, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a awgrymwyd gan Otterburn a'r proffesiynau. Teimlai rhai bod angen mwy o gontractau, yn enwedig yn yr ardaloedd gyda'r nifer lleiaf o gontractau er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau.
- 2.93 Fel y nodwyd uchod, rydym wedi ailystyried niferoedd y contractau ac rydym yn cynnig cynnydd net o ddau gontract yng ngoleuni ein harchwiliad o newidiadau mewn niferoedd achosion ym mhob ardal caffael a allai awgrymu y dylai nifer gwahanol o gontractau gael eu dyfarnu.
- 2.94 Fel y dywedasom ym mis Chwefror, bydd cronfa o achosion sy'n cynnwys mwy nag un diffynnydd i'w cael bob amser. Mae angen i ni sicrhau bod nifer digonol o gontractwyr ym mhob ardal System Cyfiawnder Troseddol (CJS) i roi cyngor a chymorth a chynrychiolaeth i gleientiaid lle gallai fod gwrthdaro gyda diffynnydd arall. Rydym wedi penderfynu y byddai isafswm o bedwar contractwr ym mhob ardal yn ymdrin â'r ffactor hwn. Rydym yn cytuno â'n dadansoddiad a nodir yn Y Camau Nesaf bod llai nag 1% o achosion gorsaf heddlu a llai na 0.1% o achosion Llys y Goron yn cynnwys mwy na phedwar o ddiffynnyddion. Rydym yn credu y byddai hyn yn nifer hylaw o achosion i'w dyrannu i gontractwr arall mewn ardal System Cyfiawnder Troseddol gyfagos neu i gronfa o gontractwyr wrth gefn pan fo gwrthdaro o'r fath yn codi.

Cwestiwn 6. A oes gennych unrhyw farnau eraill y dylem eu hystyried wrth benderfynu ar y nifer o contractau? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.

- 2.95 Roedd ymatebwyr yn amau a oedd angen gwneud arbedion o gwbl o ystyried bod nifer yr achosion yn gostwng. Teimlai ymatebwyr fod y gallu i wneud arbedion maint yn gyfyngedig oherwydd bod y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn isel, taliadau diswyddo, faint o amser a gymerir i uno a'r arbedion a wnaed eisoes. Mae nifer o ddarparwyr eisoes wedi allanoli seilwaith a datblygu TG ac mae mwyafrif y darparwyr micro eisoes wedi lleihau eu costau cyffredinol i isafswm. Teimlai rhai y gallai arbedion maint gael eu gwneud drwy uno, ond nid drwy ddefnyddio partneriaid cyflenwi oherwydd y baich gweinyddol a materion rheoleiddio. Mae'r model yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu gwasanaethau dros ardaloedd llawer mwy, sy'n golygu costau seilwaith a rheolaeth ychwanegol sy'n mynd yn groes i egwyddorion arbedion maint, a fyddai'n broblem arbennig mewn ardaloedd gwledig. Awgrymodd rhai y byddai effaith anghymesur ar ddarparwyr BAME, fel y darparwyr lleiaf. Holodd rhai pam nad oedd model deuol y cleient ei hun a'r darparwr gwaith dyletswydd yn cael ei ail-ystyried.
- 2.96 Fel y nodwyd gennym uchod, defnyddiodd ymatebwyr yr ymgynghoriad hwn i fynegi gwrthwynebiad cyffredinol i'r model contract gwaith dyletswydd yn ei gyfanrwydd, gan nodi bod model dwy haen yn anghywir mewn egwyddor. Roeddem yn eglur yn y ddogfen ymgynghori ynghylch y penderfyniadau ynghylch y dull cyffredinol y buom yn ymgynghori yn ei gylch y llynedd ac a gadarnhawyd ym mis Chwefror. Cafodd pob un o'r dadleuon yn erbyn symud at y system contract gwaith dyletswydd arfaethedig eu hystyried yn briodol a'u cymryd i ystyriaeth cyn i'r penderfyniad gael ei gadarnhau ym mis Chwefror.

3. Y camau nesaf

Y broses gaffael

- 3.1 Heddiw rydym yn lansio tendr am 527 o contractau darparwyr gwaith dyletswydd. Mae manylion llawn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/legal-aid-crime-tender-2015>. Mae'r amserlen ddangosol fel a ganlyn:
- Ionawr 29, 2015 - y tendr yn cau
 - w / d 12 Mehefin, 2015 - hysbysiad o ganlyniadau'r tendrau
 - Gorffennaf 2015 - yn amodol ar ystyriaeth bellach, gweithredu'r ail ostyngiad yn y ffioedd
 - Hydref 1, 2015 - dechrau'r gwasanaeth
- 3.2 Un maen prawf fydd yn cael ei gymhwyso at dendr contract Darparwr Gwaith Dyletswydd Troseddol yw'r gofyniad i ymgeiswyr fod â swyddfa ym mhob ardal caffael y maent yn gwneud cais ynddi. Ond yn yr ardaloedd hynny o'r System Cyfiawnder Troseddol yr ydym wedi rhannu i greu dwy ardal caffael ac yn enwedig o ran Llundain (sydd wedi'i rannu'n 32 o ardaloedd caffael), byddai'r gofyniad hwn yn rhy feichus ar ymgeiswyr. Felly, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r rhai sy'n dymuno darparu gwasanaethau ar draws ardaloedd caffael rhanedig a/neu Llundain, rydym yn llacio'r maen prawf hwn. Bydd angen i ymgeiswyr gael un swyddfa yn unig yn y naill neu'r llall o'r ardaloedd caffael rhanedig er mwyn cael mynediad i'r hanner arall. O ran Llundain byddai hyn yn golygu bod swyddfa mewn un ardal caffael yn Llundain, yn rhoi mynediad i ymgeisydd i'r holl ardaloedd caffael cyfagos yn Llundain.

Taliadau Teithio

- 3.3 Yn yr ymateb ym mis Chwefror i'r ymgynghoriad fe wnaethom benderfynu y byddai amser teithio yn cael ei fwndelu gyda ffioedd sefydlog. Dywedasom hefyd mai 1.5 awr o amser teithio oedd yr uchafswm y byddai angen i bobl deithio - ac fe wnaethom ddweud hefyd bod hynny'n rhesymol. Fodd bynnag, ar wahân i'r ymgynghoriad, yr ydym wedi gweld tystiolaeth y bydd amseroedd teithio yn fwy na 1.5 awr mewn rhai achosion. Felly, er mwyn cefnogi darparwyr y gallai fod yn ofynnol iddynt fel eithriadau deithio'n bell, rydym wedi penderfynu talu ar wahân am amser teithio mwy na 1.5 awr (yn amodol ar gostau o'r fath yn cael eu gwario'n rhesymol fel y darperir ar ei gyfer yn y Contract Gwaith Dyletswydd Troseddol 2015). Mae hyn yn debygol o fod o fudd arbennig i'r sefydliadau hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Lleihau ffioedd

- 3.4 Ym mis Chwefror, cyhoeddasom yn Ymateb y Llywodraeth, y penderfyniad i weithredu'r gostyngiad o 17.5% mewn ffioedd am gyngor, ymgyfreitha a gwasanaethau eiriolaeth llysoedd ynadon (gwaith ar contract) mewn dau gam, gostyngiad ffi interim o 8.75% ym mis Mawrth 2014 ac yna gostyngiad pellach a gyflwynir ym mis Mehefin ochr yn ochr â Chontractau Troseddol newydd 2015 drwy nifer o newidiadau i'r cynlluniau ffioedd am y gwaith hwn. Cafodd y gostyngiad mewn ffioedd interim ei weithredu trwy is-ddeddfwriaeth ar 20 Mawrth 2014.

- 3.5 Dechreuodd cam cyntaf y broses gaffael i ddyfarnu Contractau Troseddol newydd 2015 ym mis Ebrill 2014, a dyfarnodd LAA y contractau Gwaith eu Cleientiaid eu Hunain i ychydig dros 1,800 o ddarparwyr. Ond yng ngoleuni'r her i'r adolygiad barnwrol yn erbyn proses ymgynghori Y Camau Nesaf a'r ymgynghoriad pellach sy'n dilyn, rydym yn oedi dechrau cam nesaf y broses gaffael (Darparwyr Gwaith Dyletswydd) ac o ganlyniad ni fydd y contractau (contractau'r DPW ac OCW) yn awr yn dechrau tan Hydref 2015.
- 3.6 Er gwaethaf yr oedi i'r broses gaffael, nid yw'r her ariannol a wynebwr gan yr Adran, fel llawer o Adrannau ar draws y Llywodraeth, wedi lleihau. Felly, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda gweithredu arfaethedig yr ail ostyngiad mewn ffioedd ym mis Gorffennaf 2015, yn amodol yn benodol i'r ystyriaeth bellach a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth, 2014:
- "Bydd y Llywodraeth ... yn ystyried canlyniadau'r adolygiadau gan Syr Bill Jeffrey a Syr Brian Leveson, yn ogystal ag unrhyw effaith a gaiff gostyngiad mewn cyfraddau gwariant ar gymorth cyfreithiol, a newidiadau cynharach mewn tâl... cyn cyflwyno'r ail ostyngiad mewn ffioedd i ymglyfreithwyr."*³
- 3.7 Bydd y dull hwn yn creu bwlch o dri mis rhwng gweithredu'r gostyngiad mewn ffioedd a dechrau Contractau Troseddol newydd 2015 ac felly yn gwyro oddi wrth y dull gweithredu a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Mae asesu effaith debygol ymagwedd o'r fath ar ddarparwyr, yn awgrymu na fyddai disgwyl i'r bwlch hwn fod yn fygythiad i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn oherwydd bod nifer o ffactorau yn helpu i leihau effaith y gostyngiad hwn mewn ffioedd.
- 3.8 Bydd yr ail ostyngiad ffioedd yn berthnasol i achosion newydd yn unig. Bydd llawer o werth y gwaith y mae darparwyr yn bilio ar ei gyfer yn ystod y bwlch hwn o dri mis wedi dechrau cyn mis Gorffennaf 2015 ac felly bydd o dan gynlluniau ffioedd uwch, blaenorol. O ganlyniad, gan ei bod yn cymryd amser i achosion newydd gwblhau a chael eu bilio, mae'n dilyn na fydd darparwyr yn gweithredu ar unwaith gyda phob un o'u ffioedd ar lefelau sy'n 17.5% yn is ar gyfer y cyfnod hwn.
- 3.9 Mae taliadau interim hefyd yn lleihau effaith gostyngiadau mewn ffioedd ar ddarparwyr yn y tymor byr drwy wella llif arian. Yn dilyn ein cytundeb gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr ym mis Mawrth i gyflwyno'r taliadau interim ar gyfer ymglyfreithwyr mewn achosion yn Llys y Goron (a gafodd ei gynllunio'n wreiddiol ar gyfer yr haf nesaf, ond a gafodd ei weithredu ar 2 Hydref) mae darparwyr eisoes yn gallu elwa ar well llif arian. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar refferniw darparwyr yn y cyfnod o fis Gorffennaf i Hydref 2015.
- 3.10 Gan ddefnyddio data bilio 2013-14, rydym wedi gwneud asesiad o sut y mae'r cymysgedd o achosion ar gynlluniau ffioedd gwahanol, ynghyd â thaliadau interim, yn effeithio ar lefel y gostyngiad mewn ffioedd y mae darparwyr yn eu hwynebu yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15 tan ddyddiad dechrau'r gwasanaeth yn Hydref 2015. Rydym yn cydnabod y bydd y darparwyr i gyd yn cael eu heffeithio yn wahanol gan daliadau interim a bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar faint o waith Llys y Goron y mae darparwr yn ei wneud. Mae dadansoddiad dangosol yn awgrymu y bydd y cwmni cyfartalog yn destun gostyngiad cyffredinol yn incwm y

³ https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/consult_view

ffioedd cymorth cyfreithiol⁴ maent yn eu derbyn sydd, ar gyfartaledd, tua 5% yn ystod y cyfnod Ebrill 2015 i Hydref 2015 o'i gymharu ag incwm ffioedd cyn y gostyngiadau cyntaf a'r ail ostyngiadau yn y ffioedd⁵ (hy incwm o ffioedd cyn 20 Mawrth 2014).

- 3.11 Bydd y Contractau Troseddau Safonol presennol yn cael eu hystyn i sicrhau bod y gwasanaeth yn barhaus hyd at ddechrau'r Contractau Troseddol newydd yn 2015. Bydd yr LAA yn cyhoeddi hysbysiadau o estyniad i holl ddeiliaid Contractau Troseddol Safonol maes o law.

⁴ Incwm ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol o orsaf yr heddlu, llys yr ynadon ac ymgyfreitha yn Llys y Goron

⁵ Gan dybio mai'r ail ostyngiad yn y ffioedd yw'r uchafswm sef 8.75%.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>

© Hawlfraint y Goron 2014 Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar ffurf arall ar gael wrth anfon cais at LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk